Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Datblygu Polisi'r Economi, yr Amgylchedd ac Isadeiledd

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 18 Mawrth 2021 am 2.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd C Anderson (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | P Downing | P R Hood-Williams |
| P K Jones | M A Langstone | W G Lewis |
| P Lloyd | P M Matthews | T M White |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Scott Dummett | Uwch-gyfreithiwr |
| David Meyrick | Rheolwr Cynllunio a Chyflwyno Rhaglenni |
| Carol Morgan | Rheolwr Datblygu Rhagor o Gartrefi |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Mark Wade | Pennaeth Tai ac Iechyd y Cyhoedd |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

---

**27 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol gan aelodau**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**28 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor Datblygu Polisi’r Economi, yr Amgylchedd ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2021 fel cofnod cywir.

**29 Strategaeth Rhagor o Gartrefi a Datgarboneiddio'r Stoc Tai Bresennol**

Cyflwynodd y Pennaeth Tai ac Iechyd y Cyhoedd gyda chymorth y Rheolwr Cynllunio a Chyflwyno Rhaglenni ar gyfer buddsoddiadau'r cyngor a'r Rheolwr Datblygu Rhagor o Gartrefi adroddiad a oedd yn amlinellu'r Strategaeth Rhagor o Gartrefi a'r rhaglen ddatblygu sy'n dod i'r amlwg ar gyfer cartrefi cyngor newydd a ariennir gan y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Roedd yr adroddiad yn amlinellu’r cynnydd cyfredol a dyheadau'r dyfodol ar gyfer rhaglen ddatblygu'r cyngor.

Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu'r cynnydd o ran bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru, y dull o ddatgarboneiddio stoc tai bresennol y cyngor, a'r cynlluniau peilot sy’n cael eu llunio i brofi egwyddorion a chyfeirio’r strategaeth yn y dyfodol.

Manylodd swyddogion ar gefndir y Strategaeth Rhagor o Gartrefi, y Fanyleb Rhagor o Gartrefi – Safon Abertawe, Cynlluniau Gorffenedig a Gweithgarwch Presennol, Cynlluniau'r Dyfodol a Gweithgarwch Cynlluniedig, Cefndir Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) a Datgarboneiddio, Cyflawni Effeithlonrwydd Ynni yn y Gorffennol, Rhaglen Datgarboneiddio‘r Dyfodol – Datblygu Polisi Cenedlaethol, Cynigion Drafft Polisi Datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, Cyfnod Trosiannol – Cynlluniau Peilot Datgarboneiddio, Strategaeth Datgarboneiddio arfaethedig ar gyfer y dyfodol a Chyfleoedd, Heriau a Risgiau i'r cyngor yn y dyfodol.

Cyfeiriodd swyddogion at y cyflwyniad ar Gyngor Abertawe - Adeiladu Cartrefi Gwell a Datgarboneiddio Cartrefi Presennol. Roedd y cyflwyniad yn manylu ar y canlynol:

- Hanes Rhagor o Gartrefi.
- Manteision disgwyliedig Passivhaus.
- Y daith tuag at Gartrefi fel Gorsafoedd Pŵer.
- Cysyniad Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer.
- Datblygiadau Safon Abertawe.
- Technolegau Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer.
- Canlyniadau.
- Gweithgareddau cyfredol a chynlluniedig.
- Datgarboneiddio tai presennol.
- Gwaith effeithlonrwydd ynni SATC.
- Buddsoddiad effeithlonrwydd ynni SATC.
- Gwelliannau effeithlonrwydd ynni.
- Manteision y Rhaglen Effeithlonrwydd Ynni.
- Uwchraddio adeiladwaith allanol - rendro wedi'i inswleiddio.
- Uwchraddio adeiladwaith allanol - effeithlonrwydd ynni
- Datblygu polisi datgarboneiddio yn y dyfodol.
- Cynigion Drafft Polisi Datgarboneiddio.
- Targedau Datgarboneiddio.
- Cynlluniau peilot datgarboneiddio.
- Manyleb datgarboneiddio'r cynllun peilot.
- Ôl-osod tai cyfan yn Ffordd Ellen i SATC.
- Cynllun peilot Ôl-osod yn Ffordd Ellen – cyn ac ar ôl.
- Cyflenwad a storfeydd adnewyddadwy.
- Ôl-osod tai cyfan yn Lôn y Felin.
- Ynni adnewyddadwy yn Lôn y Felin.
- Strategaeth ôl-osod a datgarboneiddio fabwysiedig.
- Cyfleoedd.
- Heriau.
- Risgiau.

Diolchodd Aelod y Cabinet dros Ynni a Thrawsnewid Gwasanaethau i'r swyddogion am eu hadroddiad cynhwysfawr. Nododd yr aelodau y bu gweithio trawsadrannol eithriadol o ran Safon Abertawe.

Dywedodd Aelod y Cabinet fod SATC wedi creu buddsoddiad mawr o ychydig o dan hanner biliwn o bunnoedd mewn 13,500 o gartrefi cyngor, sydd hefyd yn gwella effeithlonrwydd ynni'n sylweddol.

Yn ogystal â gwella sgiliau'r gweithlu, mae'r cyngor hefyd yn gweithio'n agos gyda cholegau lleol i gysoni'u cyrsiau â thechnolegau adnewyddadwy, sef swyddi'r dyfodol.

Roedd gwaith datgarboneiddio'n her enfawr o hyd i'r cyngor o ran cyllid. Roedd amseru hefyd yn bwysig gan fod angen canolbwyntio'n hymdrechion ar ein buddsoddiad mewn cartrefi newydd ac oddeutu £350m mewn datgarboneiddio cartrefi sydd eisoes yn bodoli.

Cyfeiriodd Aelod y Cabinet dros Ynni at ei rôl o fewn CLlLC wrth iddi gynrychioli Aelod y Cabinet dros Dai.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau, dywedodd Aelod y Cabinet a'r swyddogion:

- Er na chynhelir unrhyw waith adeiladu Passivhaus pellach, teimlwyd bod y peilot wedi bod yn brosiect cychwynnol da ac o ganlyniad, gwnaed penderfyniadau i ddod o hyd i ddeunyddiau'n lleol, gan gefnogi busnesau bach a chanolig lleol. Yn ogystal, roedd caffael deunyddiau'n lleol (o fewn radiws o 15 milltir) yn lleihau'r ôl troed carbon.
- Gwnaed gwaith uwchraddio thermol a bydd gwaith ar ynni adnewyddadwy'n dechrau ar ôl 2025. Y nod oedd blaenoriaethu gweddill yr eiddo nad ydynt wedi'u huwchraddio. Wrth weithio ar yr eiddo hynny, bydd paneli PV a storio'n cael eu hintegreiddio. Rhoddir sylw i atebion gwresogi carbon isel yn ddiweddarach yn y rhaglen.
- O ran pontio oer, mae'n rhaid i ni hefyd roi hyn ar y ciliau a'r pennau i gael gwared ar bontydd oer. Mae'r mesurau inswleiddio a roddwyd ar waith gennym yn gyson ac nid oes gwendid yn y deunydd inswleiddio a ddefnyddir.
- Mae targed mewn rheoliadau adeiladu sy'n nodi sawl gwaith yr awr y mae angen newid yr aer. Nod ein Safon Abertawe yw gwella'r ffigur hwnnw. Mewn perthynas â Pharc yr Helyg, cyflwynir manylion y ffigurau hynny i'r Pwyllgor maes o law.
- Nod aerglosrwydd yw lleihau drafftiau a all fynd i mewn i eiddo ac sy'n helpu gyda'r perfformiad thermol a faint o wres a gollir o bosib. O ran aerglosrwydd, cyfradd Passivhaus oedd 0.6, a chyfradd rheoliadau adeiladu safonol yw tua 10 a chyfradd ein Safon Abertawe yw tua 3.4/3.5, felly mae'r gwahaniaeth rhwng Passivhaus a Safon Abertawe yn fach iawn.

- Mae strategaeth Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar y stoc tai yng Nghymru gan ei bod yn teimlo bod ganddi fwy o reolaeth dros allu cyflwyno rhaglenni datgarboneiddio mewn tai cymdeithasol. Mae’r Llywodraeth yn gobeithio y gellir defnyddio'r rhaglenni a ddarparwn i annog y sector preifat wrth symud ymlaen felly rydym yn credu eu bod yn edrych ar darged o 2035 ar gyfer darparu tai sector preifat.
- Mae Llywodraeth Cymru'n archwilio rheoliadau adeiladu mewn perthynas ag effeithlonrwydd thermol ar eiddo newydd. Mae cydbwysedd rhwng cost adeiladu a gwerth ailwerthu'n hanfodol.
- Mae cynllun Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer yn aros o hyd am gymeradwyaeth fel prosiect Bargen Ddinesig ac felly nid oes llif arian o ran y prosiect hwn. Rhagwelir y byddai'r cytundeb busnes yn cael ei gymeradwyo yn ystod y 2-3 mis nesaf gan Lywodraeth Cymru a'r DU a byddai ein cynllun yn rhan o'r fargen honno.
- Monitro offer y rhaglen a osodwyd yn Colliers Way 1, Colliers Way 2 a Pharc yr Helyg.  Fodd bynnag, nid oes ffigurau ar gael oherwydd yr aflonyddwch o ganlyniad i COVID. Bydd systemau newydd yn darparu ffordd fwy effeithiol o fonitro o bell. Bydd ffigurau ar gael pan fydd Ysgol Pensaernïaeth Cymru yn gallu cael mynd i mewn i eiddo.
- Er bod cydnabod y CRT yn gymhleth ac mae'r cynllun busnes yn gymhleth iawn, nid yw'n adlewyrchu unrhyw grantiau y gellir cael gafael arnynt yn y dyfodol. Bydd y cyngor yn cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru am gyllid ychwanegol neu bydd ein blaenoriaethau'n cael eu rhannu rhwng cwblhau SATC a'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw ac atgyweirio. Mae'n anghyfreithlon benthyca dros yr uchafswm ariannol a rhoi'r CRT mewn dyled. Mae'r cyngor yn ofalus wrth gadw lefel cronfeydd wrth gefn sy'n briodol.
- O ran prentisiaethau, mae 17 wedi'u recriwtio eleni gyda chyfanswm o 76 ar draws pob disgyblaeth. Nid yw’r broses recriwtio wedi bod yn gysylltiedig ag adeiladu o ran SATC yn unig - mae hefyd yn gysylltiedig â'r rhaglen gyfalaf addysg. Er bod bwlch mewn sgiliau masnach yn bodoli, mae cynnydd yn cael ei wneud i 'ddatblygu' ein talent ein hunain. Yn ogystal â phrentisiaethau, mae'r cyngor, cymdeithasau tai a datblygwyr preifat yn cyflogi unigolion di-waith mewn cymunedau. Mae'r staff presennol wedi'u hyfforddi i sicrhau bod niferoedd priodol o staff i osod a chynnal a chadw'r offer yn yr eiddo hyn gan greu a chadw cynifer o'r swyddi hynny yn ardal Bae Abertawe.

Diolchodd y Cadeirydd i Aelod y Cabinet a'r swyddogion am eu hadroddiad cynhwysfawr.

Penderfynwyd ar y canlynol:

1. Nododd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad a chadarnhaodd fod y cyd-destun polisi presennol yn parhau i fod yn briodol wrth i'r cyngor ddatblygu ei strategaeth datgarboneiddio o'i stoc tai.

**30 Cynllun Gwaith 2020/2022**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cynllun gwaith a gofynnodd am gynnwys eitem ychwanegol ynghylch gosod safleoedd bysus. Dywedodd y Cyfarwyddwr Lleoedd mai'r Comisiynydd Traffig oedd yn gyfrifol am osod safleoedd bysus ac nid yw hwn yn bolisi y gall y cyngor ei roi ar waith.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r cynllun gwaith.
2) Ystyried Rheoli a Chynnal Mannau Agored (Polisi Bioamrywiaeth a Choed) yn y cyfarfod ar 22 Ebrill 2021.
3) Y bydd y Cyfarwyddwr Lleoedd yn ystyried opsiynau o ran gosod safleoedd bysus.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.50pm

**Cadeirydd**